Camgymeriadau wrth siarad ac ysgrifennu

Mae bag fi yn y car. X

Ysgrifennu: **Mae fy mag yn y car.** √

Siarad: **Mae 'mag yn y car.** √

Roedd dad fe yn gweithio. X

Ysgrifennu: **'Roedd ei dad yn gweithio.** √

Siarad: **Roedd 'i dad yn gweithio.** √

Sai gyda beiro. X

Fi ddim gyda beiro. X

Ysgrifennu: **Nid oes gennyf feiro./Does dim beiro gennyf i.** √

Siarad: **Does dim beiro gyda fi.** √

Os mae hi'n braf, cewch chi fynd mas. X

Ysgrifennu: **Os yw hi'n braf, cewch fynd mas/allan.** √

Siarad: **Os ydy hi'n braf, cewch fynd mas/allan.** √

Mae i gyd o'r llyfr yn dda. X

Mae'r llyfr i gyd yn dda. √

O fi gyda mam a dad neithiwr. X

Ysgrifennu: **'Roeddwn (i) gyda mam a dad neithiwr.** √

Siarad: **Ro'n i gyda mam a dad neithiwr.** √

Mae defnyddio **bod mae / bod roedd** yn anghywir.

Mae'r gar da am <u>bod mae</u> e'n gyflym. X

Mae'n gar da am <u>ei fod e'n</u> gyflym. √

Mae Mair yn llwyddo am <u>bod mae</u> hi'n gwrando. X

Mae Mair yn llwyddo am <u>ei bod hi'n</u> gwrando. √

Mae Dafydd a Dei yno am <u>bod maen nhw'n</u> gryf. X

Mae Dafydd a Dei yno am <u>eu bod nhw'n</u> gryf. √

Aeth Geraint i'r ysbyty am <u>bod roedd</u> e'n sâl. X

Aeth Geraint i'r ysbyty am ei fod e'n sâl. √